# Llwybr Treftadaeth Tref Sanclêr

Datblygwyd Llwybr Treftadaeth Tref Sanclêr i helpu hyrwyddo hanes a diwylliant cyfoethog y dref ac i greu canolbwynt i drigolion ac ymwelwyr i ddysgu mwy am yr amgylchedd lleol. Mae'r llwybr yn dilyn priffyrdd a llwybrau troed cyhoeddus ac mae'n eich galluogi chi i ymweld â'r prif safleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol yn Sanclêr. Mae'n mynd â chi ar daith dywysedig o dua milltir a hanner, sy'n cysylltu cymunedau hŷn a newydd Sanclêr mewn ffordd strwythuredig. Bwriad y daflen hon yw rhoi trosolwg bras o'r safleoedd sydd o ddiddordeb ac i roi map o'r llwybr y byddwch chi'n ei ddilyn. Ceir deuddeg panel deongliadol ac mae gan bob panel Gôd QR, sy'n darparu dolen i wybodaeth ychwanegol am bob lleoliad. Crëwyd llwybr sain hefyd i ychwanegu at y profiad ac mae clustffonau ar gael o Ganolfan Grefftau Y Gât, yn ystod oriau agor.

Medrwch ddilyn y daith drwy amser ac olrhain hanes Sanclêr, gan sylwi ar rai o'r uchafbwyntiau ar hyd y ffordd. Lleolir y panel cyntaf ar sgwâr yr Hen Farchnad, lle dewch chi o hyd i gerflun pren sy'n darlunio Terfysgwyr Beca, a cheir panel gwybodaeth sy'n disgrifio cysylltiadau'r dref gyda'u gweithgareddau yn y bedwaredd Ganrif ar bymtheg (1). Lleolir y ddau banel nesaf ar safle Cofeb Rhyfel y dref (2/3), lle rhestrir enwau'r rhai hynny a laddwyd yn ystod y ddau Ryfel Byd, ynghyd â phlac i arwr lleol a pheilot-ymladdwr nodedig o'r Rhyfel Byd Cyntaf - Y Grwp Gapten Ira Jones. Lleolir crynodeb a map o'r Llwybr ym maes parcio'r dref (4). Trwy ddilyn y llwybr dan y bont ar y ffordd ddeuol i Ffordd Peillac, fe welwch ddau banel (5/6), un sy'n disgrifio'r bywyd gwyllt a geir ar y daith glan afon hardd hon a'r llall yn adrodd hanes Sanclêr yn y Canoloesoedd. *Byddwch yn ofalus, os gwelwch yn dda, oherwydd weithiau mae'r rhan hon o'r llwybr yn gorlifo pan fo'r llanw'n uchel iawn.*

Ym mhen deheuol y llwybr, fe welwch Eglwys Y Santes Fair Magdalen (7), adeilad prydferth o'r 12fed ganrif, sydd â bwa cangell o ddyluniad Normanaidd Romanésg. Gyferbyn a phorth y fynwent hardd hwn mae Neuadd y Dref (8), man cyfarfod rheolaidd y Gorfforaeth yn y 19eg ganrif. Gellir dod o hyd i safle'r Castell Tomen a Beili Normanaidd a thystiolaeth o amddiffynfeydd y dref ym Manc y Beili (9/10), lle mae'r domen neu'r twmpath yn codi i 12 medr – un o'r talaf yng Nghymru. Daw'r llwybr i ben yng Nghei'r Dref, lle mae paneli (11/12) yn adrodd stori Porthladd Sanclêr, glan yr afon a'r ceiau a oedd yn bodoli yn ystod y 19eg ganrif ac a oedd yn dal i weithredu ar ddechrau'r 20fed ganrif.

Rydym yn eich annog i ddilyn marcwyr ffordd y Blue Boar i Gei'r Dref, a gobeithiwn yn fawr y byddwch yn mwynhau'r profiad. Medrwch orffen y daith drwy ddychwelyd ar hyd eich llwybr gwreiddiol neu, os ydych yn dymuno dychwelyd ar y bws, mae gwasanaeth 222 ar gael – *gwiriwch yr amserau ar yr amserlen a leolir ger y map yn y Maes Parcio yn lleoliad 4, os gwelwch yn dda.* Os oes gennych glustffonau Llwybr Sain, cofiwch eu dychwelyd i Ganolfan Grefftau Y Gât, os gwelwch yn dda.

st. clears town council
cyngor tref sanclêr

# St Clears Town Heritage Trail

St Clears Town Heritage Trail was developed to help promote the rich history and culture of the town and to create a focal point for residents and visitors to learn more about the local environment. The trail follows public highways and footpaths and enables you to visit the main sites of historic interest in St Clears. It takes you on a guided walk of approximately 1.5 miles that links the new and older communities of St Clears in a structured way. This trail leaflet is intended to give you a brief overview of the sites of interest and to provide you with a map of the route that you will follow. There are twelve interpretive panels in all and each panel has a QR code providing a link to additional information on each location. An audio trail has also been created to enhance the experience and headsets are available from the Gate Craft Centre during opening hours.

You can follow this walk through time and trace the story of St Clears, picking out some highlights along the way. The first panel is located at the Old Market square where you will find a wooden sculpture depicting the Rebecca Rioters and an information panel describing the town's links with their activities in the 19th century (1). The next two panels are located at the town War Memorial (2/3) where those who were killed in both World Wars are listed along with a plaque to a local hero and noted fighter pilot from the First World War – Group Captain Ira Jones. An overview and map of the Trail are located in the town car park (4). By following the route under the bridge on the dual carriageway on to Peillac Way, you will find two panels (5/6), one that illustrates the wildlife to be found on this picturesque riverside walk and another that outlines the history of St Clears in Medieval times. Please take care as this section of the path is sometimes liable to flood at extreme high tide.

At the southern end of this walk you will find the Priory Church of St Mary Magdalene (7), a beautiful 12th century building that has a chancel arch of Norman Romanesque design. Opposite the handsome lychgate is the Town Hall (8), the regular meeting place of the Corporation in the 19th century. The site of the Norman Motte and Bailey Castle and evidence of the Town's defences can be found at Banc y Beili (9/10), where the motte or mound rises to 12 metres – one of the tallest in Wales. The trail ends at the town quay where panels (11/12) outline and illustrate the story of St Clears Port, the riverside and wharves that existed during the 19th century and were still active in the early part of the 20th century.

We encourage you to follow the Blue Boar way markers to the Town Quay and hope you enjoy the experience. You can return by retracing your original route or, if you wish to return by bus, the 222 service is available - please check times on the timetable located near the map in the Car Park at location 4. If you have an Audio Trail headset, please remember to return it to the Gate Craft Centre.

Ymddiriedolaeth Tref Sanclêr – The St Clears Town Trust

Phil Wait Design

Canolfan Tywi – Tywi Centre

RDP Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council

Cyfoeth Naturiol Cymru – Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol – National Trust

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru – Welsh Government


st. clears town council
cyngor tref sanclêr
AFON CYNIN
RIVER CYNIN
Y GÂT
THE GATE
HEOL YR ORSAF
STATION ROAD
YSGOL
GRIFFITH JONES
SCHOOL
A40
①
②
③
④
HEOL Y PENTRE
PENTRE ROAD
MAES PARCIO
CAR PARK
AFON DEWI FAWR
RIVER DEWI FAWR
HEOL DINBYCH Y PYSGOD
TENBY ROAD
A40
A40
A477
FFORDD PEILLAC
PEILLAC WAY
⑤
STRYD FAWR
HIGH STREET
LON FAIR
HEOL GOI
AFON CYNIN
RIVER CYNIN
EGLWYS Y SANTES FAIR MAGDALEN
ST. MARY MAGDALENE'S
CHURCH
⑦
⑥
⑧
NEUADD Y DREF
TOWN HALL
⑨
⑩
AFON TÂF
RIVER TÂF
CEI'R DREF
TOWN QUAY
⑪
⑫
STRYD Y BONT
BRIDGE STREET